



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gylch Meithrin Y Fflint
Neuadd Maes Y Coed
Woodfield Avenue
Y Fflint
CH6 5DU**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

© **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 22/03/2018

Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Y Fflint, sydd yn cwrdd mewn caban ar safle Ysgol Croes Atti, yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r lleoliad yn agor am bum niwrnod yr wythnos rhwng 8.30 y bore a 3.00 y prynhawn.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 30 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac mae'n derbyn plant rhwng dwy a phedair oed. Ychydig iawn o blant sy'n cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu ar hyn o bryd. Mae Dechrau'n Deg yn ariannu'r rhan fwyaf o'r plant dwy flwydd oed.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 1999.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2017 a gan Estyn ym mis Mehefin 2011.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y cynllunio ar gyfer profiadau dysgu'r plant yn drwyadl ac yn bodloni eu hanghenion a'u diddordebau'n llwyddiannus
- gweithgareddau ysgogol yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl y plant yn bwrpasol
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol
- effaith yr addysgu'n fuddiol iawn i ddatblygu'r Gymraeg am fod yr ymarferwyr yn fodolau ardderchog o'r iaith
- y gweithdrefnau asesu a'r arferion i gofnodi cyflawniadau'r plant yn effeithiol
- gofal tyner yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol ac ethos synhwyrol
- ardaloedd dysgu ac adnoddau parod yn cymell y plant i wella'u medrau'n gyson ac, o ganlyniad, yn ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir ac ymroddiad parod i'r holl waith ymarferol a gweinyddol
- cydweithio llwyddiannus rhwng yr holl ymarferwyr, yr ysgol, y pwyllgor rheoli a'r asiantaethau allanol
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi'r lleoliad yn ddiwyd i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- systemau hunanarfarnu addas yn arwain at osod targedau defnyddiol, sy'n cael effaith bwrpasol ar y ddarpariaeth
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol i wella'u harferion
- partneriaeth ardderchog gydag athrawes gyswllt yr ysgol
- arweinwyr yn gwneud defnydd llwyddiannus o gyllid i greu gwelliannau yn y ddarpariaeth ac i gynnal yr adeilad a'r ardal allanol yn bwrpasol

Argymhellion

- A1 Gwella'r ddarpariaeth i sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol
- A2 Darparu cyfleoedd i bob plentyn ddatblygu eu hannibyniaeth yn ystod amser byrbryd
- A3 Sicrhau bod y targedau yn y cynllun gweithredu yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

N/A

Safonau: N/A

Lles: N/A

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu'r plant yn drwyadl er mwyn bodloni eu hanghenion a'u diddordebau'n llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu gweithgareddau diddorol ar draws yr holl feysydd dysgu, tu fewn y caban ac yn yr awyr agored. Maent yn ennyn diddordeb y plant yn bwrpasol, sy'n creu dysgwyr brwdfrydig ac awyddus. Er enghraifft, maent yn cymhell y plant i ddysgu'n ymarferol trwy chwarae rôl yn y siop a chyfri i ddeg wrth daflu peli eira i fwced. O ganlyniad, maent yn darparu cwricwlwm ysgogol, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn fwiadus.

Mae'r holl ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau yn synhwyrol ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i'r plant leisio eu syniadau personol. Mae hyn yn cyfoethogi'r gweithgareddau ymhellach wrth i'r ymarferwyr ategu syniadau'r plant i'w cynlluniau gwaith manwl. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau dyddiol yn ychwanegu'n gadarnhaol tuag at frwdfrydedd y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cadarn i blant gyfatebu cyfarpar mathemategol a ddarganfuwyd yn y tywod â rhifau a pheintio eu dwylo i brintio pluen eira.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg yn fuddiol iawn i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodolau ardderchog o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith gymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol. Maent yn herio a holi'r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu ac mae eu holi meddylgar a phatrymau iaith cyfoethog yn ysgogi'r plant i ymateb yn ddeallus. Mae llawer o'r plant yn ymateb â geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n gyflym.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl y plant yn bwrpasol. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Gwelir enghreifftiau ymarferol o hyn wrth i blant drafod nodweddion y tywydd drwy arbrofi gyda blociau iâ i esbonio'r gwahaniaeth rhwng poeth ac oer. Yn ychwanegol, maent yn adeiladu dyn eira ar y cyd, gyda blychau o wahanol feintiau. O ganlyniad, mae'r profiadau dysgu hyn, a'u tebyg, yn werthfawr ac yn cynnig dilyniant a pharhad effeithiol yn nysgu'r plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu TGCh yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas i ddefnyddio camerâu, tiliau, teganau a llechi electronig. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn cael eu herio'n ddigon effeithiol trwy ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn rheolaidd i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, coginio cawl a phobi cacennau traddodiadol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn ddeallus. Maent yn gadael iddynt ddringo cyfarpar anturus a llithro i'r llawr yn annibynnol, gyrru beiciau'n fywiog a rhedeg yn igam-ogam rhwng pensiliau enfawr yn yr ardal allanol. Mae hyn yn gwella'u profiadau a'u medrau corfforol yn fwiadus.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau creadigol y plant. Maent yn defnyddio sialc ar fyrddau du a dŵr a brwsys i wneud marciau yn yr ardal allanol ac yn gludo dail i silindrau'n annibynnol i greu boncyffion coed.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae'r ymweliadau i bostio llythyron yn y dref, prynu nwyddau yn yr archfarchnad leol, cyfrannu at jamboriau ac eisteddfodau yn atgyfnerthu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae ymwelwyr fel yr heddlu, glanweithydd deintyddol, swyddog diogelwch y ffyrdd ac unigolyn â chywion bach yn addysgu'r plant yn llwyddiannus am rolau pobl yn eu cymuned.

Addysgu: Da

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen.

Mae'r ymarferwyr yn rhannu disgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio'n gydwybodol. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae gweithdrefnau diogel yn perthyn i'w gwaith tu fewn a thu allan i'r adeilad. O ganlyniad, mae eu trafodaethau synhwyrol â'r plant yn annog eu cyfranogiad a'u mwynhad yn effeithiol ym mhob gweithgaredd.

Mae'r holl ymarferwyr yn herio'r plant yn rheolaidd yn ystod y tasgau ffocws a pharhaus. Mae eu defnydd o'r Gymraeg yn ardderchog, wrth iddynt fodelu patrymau iaith a geirfa gyfoethog. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysgogi a'u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae'r plant yn dyfalbarhau i lenwi blwch, drwy gyfatebu siapiau tri dimensiwn â'r siâp dau ddimensiwn. Yn ogystal, caiff y plant gyfleoedd addas i chwarae'n annibynnol, fel defnyddio sialc i greu llwybr yn yr ardal allanol trwy ddilyn llythyren gyntaf eu henwau ar y llawr.

Mae'r gweithdrefnau asesu a'r arferion i gofnodi cyflawniadau plant yn effeithiol. Mae'r dystiolaeth yn gyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r asesiadau dyddiol yn gywir i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol, trwy eu cynllunio defnyddiol a'u gweithgareddau amrywiol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae deialog dyddiol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr, sy'n atgyfnerthu hyn yn bwrpasol. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth gynhwysfawr am gyflawniad eu plant ar gael i rieni a gofalwyr. Mae'r lleoliad yn darparu llyfrynnau defnyddiol i'r rhieni sy'n llawn lluniau ac anodiadau pwrpasol, sy'n adlewyrchu cynnydd eu plant dros amser.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol bywiog yn llwyddiannus i annog y plant i gyfarch ei gilydd, i fyfrio am deimladau eraill a dweud diolch.

Mae dulliau synhwyrol yr ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch yn llwyddiannus ymysg y plant. Maent yn atgyfnerthu pwysigrwydd y gwerthoedd hyn ym mywyd dyddiol y lleoliad wrth i blant linellu ac aros eu tro i wisgo'u cotiau cyn dechrau dysgu yn yr awyr agored.

Mae'r defnydd o 'helpwr y dydd' yn dyletswyddo cyfrifoldebau i unigolion ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. Fodd bynnag, er bod y plant yn cael cyfle i osod y llestri yn eu tro, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i weini ei gilydd a'u cyfoedion o amgylch y bwrdd bwyta yn ddyddiol.

Mae gan ymarferwyr drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant ac maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn gadarn. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n llwyddiannus, fel dangos cwrteisi i'w gilydd wrth fwyta byrbrydau. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Yn ogystal, maent yn trafod pwysigrwydd cadw'n heini a bod gweithgareddau i gyflymu'r galon yn yr ardal allanol ar feiciau yn effeithio'u bywydau'n bositif.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad annerbyniol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac maent yn gofyn yn aml am gymorth a chefnogaeth i gwblhau gweithgareddau. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal diwyd o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu manau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant, ac yn eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi unigolion gyda chefnogaeth arbenigol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn effeithiol, pan fo'r angen yn codi.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth gadarn o anghenion y plant. Mae'r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol lle mae bron pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i ddysgu'n gynhyrchiol tu fewn a thu allan i'r adeilad.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais dyddiol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol a'u hagweddau cydwybodol. Mae'r ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn gyson mewn modd cadarnhaol a gofalus. Maent yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn cynllunio cyfleoedd addas i'r plant ddathlu'r Flwyddyn Newydd Dseiniadd a Diwali yn flynyddol a chwarae gyda doliau a jig-sos o wahanol ddiwylliannau yn achlysurol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n llwyddiannus i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Caiff ystod o adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, gweithgareddau ffocws ac i gyfoethogi'r dysgu, fel blociau i adeiladu tyrrau, toes i greu dynion eira ac ystod o lyfrau lliwgar i annog medrau darllen y plant. Mae'r adnoddau'n cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o'r plant eu cyrraedd yn rhwydd. Mae hyn yn galluogi'r plant i'w hestyn, eu defnyddio'n annibynnol a'u rhoi i gadw heb ymyrraeth oedolion. Mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar hyrwyddo synnwyr o gyfrifoldeb ymysg y plant wrth rannu a chydweithio. Mae gan y lleoliad adnoddau TGCh priodol.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn dda ac mae'n ddiogel. Mae'r ardal allanol yn cynnwys ardaloedd plannu a thyfu, cyfarpar i ddringo ac ardaloedd heriol i ddatrys problemau gyda dŵr a thywod. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn greadigol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal fewnol yn ddoeth ar gyfer darparu gweithgareddau bywiog dan do fel dawnsio a chreu symudiadau i gerddoriaeth.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r cyfleusterau lleol yn effeithiol, drwy fynd â'r plant i amryw leoedd i rannu mewn gweithgareddau eu milltir sgwâr, fel castell y dref.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r arweinydd yn arwain y lleoliad yn bwrpasol er mwyn hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n effeithiol. Mae ei gweledigaeth a'i haeddfedrwydd, wrth weithredu'n ddyddiol, yn sicrhau bod y profiadau dysgu ar gyfer y plant, yr addysgu a'r gofal yn llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau'r lleoliad, sy'n cynnwys polisiau trefnus a chorfforaethol, yn canolbwyntio'n drwyadl ar wella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn bodloni anghenion y plant yn effeithiol ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n bwrpasol.

Mae'r arweinydd yn cydweithio'n ddiwyd gyda'r ymarferwyr eraill ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. O ganlyniad, maent yn cymell a herio'r plant i wella mewn ffyrdd ysgogol a chefnogol trwy addysgu effeithiol. Gwelir hyn wrth iddynt fwydo'r Gymraeg i'r plant yn rheolaidd trwy sgwrsio a chanu'n gyson gydag unigolion a grwpiau penodol i dargedu gwelliannau ar lafar.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Maent yn adnabod manau cychwyn y plant yn gywir, ynghyd â phlethu holl agweddau'r cynllunio, gydag asesiadau defnyddiol, i ddarparu cwricwlwm heriol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar gynnig gweithgareddau diddorol i'r plant. O ganlyniad, maent wedi llwyddo i greu newidiadau buddiol i'r ardaloedd dysgu, tu fewn i'r adeilad a thu allan, gyda chefnogaeth athrawes gyswllt yr ysgol. Mae'r newidiadau hyn wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant. Yn ogystal, mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n drylwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd, i wella medrau'r plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli cefnogol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn effeithiol. Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson ac maent yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar wella'r holl ddarpariaeth, fel datblygu'r ardal allanol a phenderfynu gosod gwair ffug i sicrhau defnydd cyson o'r cyfarpar. O ganlyniad, mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r lleoliad yn llwyddiannus i gynnal a gwella eu harferion a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod yn gyson i drafod yr incwm a chyllid y lleoliad ac maent yn monitro'r gwariant a'r defnydd o grantiau yn fanwl a chydwybodol.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn bwrpasol a chyson. Mae'r ymarferwyr yn monitro safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd, trwy ddefnyddio gweithdrefnau'r awdurdod lleol yn effeithiol. Mae'r pwyllgor rheoli'n cymryd rhan weithredol yn y broses. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad sy'n eu galluogi i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r cydweithio rhwng yr ymarferwyr, y pwyllgor rheoli, athrawes gyswllt yr ysgol, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn effeithiol. Mae'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, yn ogystal ag ymweliadau ac arfarniadau gan yr asiantaethau allanol, yn cyfrannu'n bwrpasol at yr arfer hon. Effaith y gefnogaeth a'r parodrwydd i wella yw bod y lleoliad wedi gwneud gwelliannau pwrpasol dros amser. Mae hyn yn cynnwys rhoi proffil y cyfnod sylfaen ar waith ac ymdrechu'n drylwyr i wella'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd dysgu a deilliannau'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn briodol i bennu blaenoriaethau synhwyrol yn y cynllun gwella. O ganlyniad, mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r lleoliad yn datblygu'n addas. Mae'r ymarferwyr yn cytuno ar y blaenoriaethau ac yn newid eu ffyrdd o weithio ac agweddau ar y ddarpariaeth yn effeithiol i ymateb i'r anghenion a nodwyd yn y cynllun gwella. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y cynllun gwella bob amser yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu bob tro'n cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut a pham mae angen gwella ambell faes ymhellach.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n blaenoriaethu gwariant yn bwrpasol yn unol â'r targedau ar gyfer gwella, fel prynu offer TGCh newydd a gweithredu cynlluniau iaith a mathemateg defnyddiol. Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes gyswllt yr ysgol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu'n effeithiol yn unol â'u cyngor yn rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at welliannau cynaiedig. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi gwella'r profiadau yn yr awyr agored trwy ddefnyddio'r gegin fwd a gwella darpariaeth gweithgareddau rhifedd ar draws yr ardaloedd dysgu.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n bwrpasol gyda'r partneriaid hyn i lwyddo i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r lleoliad yn cwrdd ar safle Ysgol Croes Atti ac mae cyswllt cadarnhaol iawn â'r ysgol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn derbyn cyngor ac arweiniad gwerthfawr oddi wrth yr athrawes gyswllt, sy'n aelod o staff yn yr ysgol. Mae'r athrawes gyswllt yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ac mae ei mewnbwn hi wedi symud sawl agwedd ar ddarpariaeth y lleoliad ymlaen, gan gynnwys asesiadau dyddiol a'r cynllunio. Mae effaith y bartneriaeth hon yn ardderchog. O ganlyniad, mae cefnogaeth gadarn yn bodoli i'r trefniadau pontio ac mae trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn ymweld â'r ysgol i wyllo'r cyngherddau Nadolig a'r mabolgampau, sy'n cefnogi ymgartrefu'r plant ym mywyd yr ysgol.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalgwyr ym mywyd y lleoliad. Mae ymarferwyr yn eu hysbysu'n rheolaidd, drwy gylchlythron, hysbysfwrdd gweithredol a chyfryngau cymdeithasol, am bob agwedd ar waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. Enghraifft o hyn yw'r parodrwydd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu'n well â rhieni yn dilyn eu sylwadau ar gyfer creu gwelliannau yng ngweithdrefnau'r lleoliad.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau i godi arian fel taith gerdded o gwmpas y caban a chefnogaeth fuddiol wrth gynnig am nawdd a grantiau perthnasol. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, ac mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal am eraill ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant fel cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac amddiffyn plant.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r arweinwyr yn anelu'n gyson tuag at wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy reoli staff ac adnoddau'n bwrpasol. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant cyflawn. Maent yn dîm sefydlog, cadarn ac effeithiol, sy'n barod i dderbyn cyngor i wella er lles y plant.

Mae'r arweinydd yn annog ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn enghraifft lwyddiannus o gymuned ddysgu gadarnhaol, sydd â diwylliant o gydweithredu cydwybodol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill fel Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg a'r athrawes gyswllt yn yr ysgol leol.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau'n greadigol i gefnogi'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys defnydd medrus o'r ardal allanol ar gyfer gweithgareddau corfforol a heriau ymestynnol fel mesur blodau haul.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a'r heriau diweddar sydd ynghlwm â hi. Enghraifft effeithiol o hyn yw bod y pwyllgor rheoli wedi caniatáu i aelod o staff gael secondiad i arwain lleoliad cyfagos i leihau'r costau a gor-staffio yn y lleoliad. Yn ogystal, mae hyn yn enghraifft gadarn o ddatblygu unigolyn yn broffesiynol, trwy ddarparu cyfle i feithrin medrau arwain yr ymarferwr.

Mae'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella'n bwrpasol, fel dechrau ategu at gyfarpar TGCh. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg